



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Safonau gofal osteopathig

Mae meddygon esgyrn neu osteopathiaid yn weithwyr gofal iechyd sylfaenol sy'n cael eu rheoleiddio gan y gyfraith.

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol sy'n gyfrifol am osod, cynnal a datblygu safonau osteopathi yn y DU, fel rheoleiddiwr statudol y proffesiwn.

Mae'r daflen hon yn egluro swyddogaeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a'r safonau addysg, hyfforddiant ac ymarfer osteopathig presennol.



COFRESTRU OSTEOPATHIAID CYMWYSEDIG

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) sy'n cynnal y Gofrestr o'r rhai sydd wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i fod yn osteopathiaid yn y DU. Mae'n rhaid i osteopathiaid adnewyddu eu trwydded bob blwyddyn er mwyn parhau i fod ar y gofrestr. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Cyngor yn gwirio bod ganddyn nhw yswiriant indemniad proffesiynol cyfredol neu eu bod mewn cyflwr iechyd da ac o gymeriad da, ac wedi bodloni'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol.

Mae'r teitl 'osteopath' wedi'i ddiogelu gan y gyfraith, a dim ond y rhai sydd ar Gofrestr statudol y DU sydd â'r hawl i alw'u hunain yn osteopathiaid. Rydym yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn unigolion sy'n ymarfer yn anghyfreithlon, os oes gennym ddigon o dystiolaeth i gefnogi erlyniad troseddol.

GOSOD SAFONAU

Swyddogaeth y Cyngor yw gosod y safonau ymarfer ac ymddygiad a ddisgwylir gan osteopathiaid, a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r safonau hyn wedi'u hamlinellu yn ein dogfen *Osteopathic Practice Standards*¹. Os na fydd osteopath yn cydymffurfio â'r safonau hyn, efallai y byddwn yn cymryd camau cyfreithiol yn ei erbyn.

HYFFORDDI I FOD YN OSTEOPATH

Heddiw, mae'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn hyfforddi i lefel gradd. Mae myfyrwyr osteopathig heddiw'n dilyn cwrs gradd pedair neu bum mlynedd, sy'n gyfuniad o waith academaidd a gwaith clinigol ymarferol. Fel arfer, mae cymwysterau osteopathi ar ffurf diploma, gradd baglor neu radd meistr fel DO, BSc(Anrh), BOst, BOstMed neu MOst.

Mae cymhwyster mewn osteopathi yn cynnwys anatomeg, ffisioleg, patholeg, ffarmacoleg, maetheg a biomecaneg yn ogystal ag o leiaf 1,000 o oriau o brofiad hyfforddiant clinigol gyda chleifion.

SICRHAU ADDYSG O SAFON

Mae'r Cyngor yn craffu ar safon yr holl gyrsiau osteopathi yn y DU sy'n arwain at gofrestru, i sicrhau bod darparwyr addysg yn helpu'r myfyrwyr i ymarfer yn ddiogel ac yn gymwys fel osteopathiaid.

1 *Osteopathic Practice Standards: Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, 2012.*



Er mwyn cofrestru i ymarfer osteopathi yn y DU, rhaid i fyfyrwyr raddio gyda chymhwyster sydd wedi'i gydnabod gan y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae 11 o sefydliadau yn cynnig cymwysterau osteopathig wedi'u hachredu gan y Cyngor, sydd hefyd wedi'u monitro gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch².

Y WYBODAETH A'R SGILIAU DIWEDDARAF

Er mwyn adnewyddu eu cofrestrriad, rhaid i osteopathiaid brofi i'r Cyngor eu bod wedi gwneud o leiaf 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn. Rydym yn disgwyl i osteopathiaid wneud gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn gwella'u sgiliau ac yn gwella'u hymarfer ym maes osteopathi. Gall datblygiad proffesiynol parhaus olygu cyrsiau hyfforddi, darlithoedd, cyfarfodydd ymarfer neu waith ymchwil, er enghraifft.

Yn unol â gofynion y Llywodraeth ar gyfer rheoleiddio'r holl weithwyr iechyd proffesiynol, rydym yn datblygu cynllun ailddilysu. Y nod yw sicrhau bod osteopathiaid yn gallu profi'n rheolaidd eu bod yn dal yn addas i ymarfer a'u bod yn bodloni'r safonau cymhwysedd, ymarfer clinigol, cyfathrebu a phroffesiynol cyfredol.

OSTEOPATHI YN Y GYMUNED

Mae pobl yn gofyn am ofal osteopathig ar gyfer pob math o anhwylderau, gan gynnwys poen cefn, problemau osgo plentyn sy'n tyfu a phoen cryd cymalau ymhlith yr henoed.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd at osteopath fel cleifion preifat ac yn talu am eu triniaeth, ac mae'r mwyafrif o bolisiau yswiriant iechyd preifat yn cynnwys triniaeth osteopathig.

Mae gwasanaethau osteopathig y GIG, sydd wedi'u hariannu'n gyhoeddus, yn dechrau dod yn fwy cyffredin ledled y DU, gan gynnig gwasanaeth ehangach i rai nad ydynt yn gallu fforddio talu am driniaeth eu hunain. Mae elfennau o ofal osteopathig, yn enwedig llawdriniaeth asgwrn y cefn, hefyd yn rhan o ganllawiau clinigol cenedlaethol a rhyngwladol (NICE 2009³, canllawiau Ewropeaidd ar boen cefn aciwt a phoen yng ngwaelod y cefn⁴).

ATGYFEIRIO NEU BEIDIO?

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn atgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol at osteopath. Er nad oes angen atgyfeiriad gan feddyg teulu, dylai cleifion roi gwybod i'w meddyg er mwyn diweddarau eu cofnodion meddygol.

Mae osteopathiaid yn arbenigo mewn technegau diagnostig ac wedi'u hyfforddi i nodi a oes angen atgyfeirio claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Yn yr un modd, mae meddygon teulu yn atgyfeirio cleifion at osteopathiaid os ydynt yn credu y byddai hyn o les iddyn nhw. Mae'r dull integredig yn fwyfwy cyffredin, ac yn pwysleisio lle osteopathi fel rhan ganolog o'r system gofal iechyd fodern.

TYSTIOLAETH AR WAITH

Er mwyn cryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer osteopathi, mae'r Cyngor yn cefnogi gwaith y National Council for Osteopathic Research (NCOR)⁵, sy'n gyfrifol am hyrwyddo ymchwil mewn gofal osteopathig a rhannu'r canlyniadau. Yn ddiweddar, buom yn ymchwilio i ddisgwyliadau cleifion o ofal osteopathig a'r peryglon o sgil effeithiau neu niwed, a chyhoeddwyd y wybodaeth hon ar ein gwefan. Gwelsom fod y rhan fwyaf o gleifion gofal osteopathig yn fodlon gyda'u triniaeth, a bod sgil effeithiau difrifol yn eithriadol o brin. Er hynny, rydym yn dal i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu diogelwch ac ansawdd gofal osteopathig i gleifion.

3 Low back pain: early management of persistent non-specific low back pain. National Collaborating Centre for Primary Care, Mai 2009.

4 European guidelines for the management of acute nonspecific low back pain in primary care, 2004.

5 www.ncor.org.uk.





Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Osteopathy House • 176 Tower Bridge Road • Llundain SE1 3LU
Ffôn: 020 7357 6655 • E-bost: info@osteopathy.org.uk • www.osteopathy.org.uk

YMDRIN Â PHRYDERON A CHWYNION

Mae amddiffyn y cyhoedd wrth wraidd gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Rydym yn ymrwymo i weithredu proses deg, lle gall cleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, a'r cyhoedd godi pryderon am osteopath a gwneud cwyn ffurfiol. Unwaith byddwn ni wedi ymchwilio i gŵyn am osteopath, ac os yw'r sefyllfa'n ddigon difrifol, gallwn osod amodau ar ymarfer yr unigolyn neu hyd yn oed dynnu ei hawl i ymarfer.

CHWILIO AM OSTEOPATH

Mae Cofrestr statudol y DU yn darparu gwybodaeth fanwl am osteopathiaid. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd yn www.osteopathy.org.uk neu drwy ffonio ein gwasanaeth gwybodaeth ar 020 7357 6655.

RHAGOR O WYBODAETH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am unrhyw agwedd ar ofal osteopathig, cysylltwch â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.



Sganiwch i fynd yn syth
i wefan y Cyngor
Osteopathig Cyffredinol



GOsC © 2014